STEDDFOTA
Cylchlythyr Cymdeithas Eisteddfodau Cymru
Rhif 75 | Hybu eisteddfodau, cynnal cymunedau | Mawrth 2026

# GOSOD SYLFEINI A CHODI'R TO!

**Ar ddiwrnod olaf mis bach eleni, cynhaliwyd Eisteddfod Cwm Tawe yng Nghanolfan Celfyddydau Pontardawe, y tro cyntaf i eisteddfod leol gael ei chynnal yn yr ardal ers nifer fawr o flynyddoedd.**

Sefydlwyd yr eisteddfod yn waddol i Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr a ddaeth i siroedd Castell-nedd a Phort Talbot ac Abertawe yn 2025. Gydag Eisteddfod Dur a Môr wedi torri'r record am nifer y cystadleuwyr, ac wedi denu'r nifer uchaf erioed o ddysgwyr i gystadlu, roedd hi'n amlwg fod awch yn lleol am ddigwyddiad o'r fath. Ac fe brofwyd y trefnwyr yn gywir wrth i dros fil o bobl fynychu'r Eisteddfod ym Mhontardawe ar ddiwrnod braf o Wanwyn. Bu raid cynnal rhagbrofion yn yr wythnos flaenorol ar gyfer 5 o'r cystadlaethau cynradd, cymaint oedd yr awch i gystadlu.

Cafwyd 88 o gystadlaethau canu, dawnsio, llefaru, offerynnol a gwaith cartref gyda dros 500 o gystadleuwyr yn cynnwys deuddeg côr neu barti canu, pum parti llefaru a phum parti dawns ar y llwyfan. Cefnogodd ysgolion a disgyblion y cwm yn eu heidiau, gyda 18 ysgol yn cystadlu ar draws yr holl gystadlaethau, a 6 o'r rheini'n rhai cyfrwng Saesneg. Roedd hi'n benderfyniad bwriadol gan y pwyllgor i geisio annog dysgwyr i gymryd rhan yn yr Eisteddfod, ac fe wnaethant, a hynny gyda chryn frwdfrydedd! Daeth Ysgol Bae Baglan i gefnogi gyda'i llefarwyr dawnus ac Ysgol Pentrehafod gyda'i unawdwyr canu hyfryd, er enghraifft. Sefydlodd Ysgol Pentrehafod barti canu o blith staff yr ysgol yn arbennig ar gyfer yr Eisteddfod ac fe lwyddon nhw i gipio'r wobr yng nghategori Côr Dysgwyr gyda datganiad angerddol o *Y Cwm* gan Huw Chiswell.

Roedd nifer fawr o uchafbwyntiau yn ystod y diwrnod, ond dau amlwg oedd gwobrwyo Tlws yr Ifanc er cof am Dafydd Rowlands, archdderwydd a phrifardd, i Erin Hill o Ysgol Gyfun Gŵyr a Thlws yr Artist er cof am yr artist arobryn o'r cwm, Mike Jones, i'r Parchedig Sue Northcott am ei serameg arbennig wedi'i ysbrydoli gan y Mabinogi. Cafwyd cystadleuwyr o bell ac agos yn y gwaith cartref i oedolion gydag enillwyr i'w canfod ym Mhentre'r Eglwys a Bae Colwyn, a phob man rhyngddynt!

Cafwyd anerchiad ysbrydoledig gan Lywydd y Dydd yr Eisteddfod, y digymar Phyl Harries, a fu'n cofio'i brofiadau



***Lluniau gan Celf Calon. Mwy ar dud. 5.***

yntau fel llanc yn aelwyd yr Urdd yr ardal yn cystadlu mewn eisteddfodau. Roedd ei araith yn gyfuniad perffaith o'i ddrygioni a'i hwyl arferol ynghyd â neges bwysig i'r to iau i ddal ati i rannu eu doniau a dilyn eu breuddwydion ac i fanteisio ar bob cyfle y gall eisteddfod ei gynnig. Nododd hefyd fel y bu eisteddfodau'n rhan greiddiol o fagwraeth a datblygiad creadigol Llywyddion Anrhydeddus yr Eisteddfod, sef yr actor, sgriptiwr a'r cyfarwyddwr drama, Lindsay Evans o Glydach, a'r Fonesig Siân Phillips o'r Alltwen, sy'n seren fyd-eang ar sgrîn a llwyfan.

Arweiniwyd y gweithgareddau o'r llwyfan yn ddeheuig tu hwnt eleni gan bedwar o bobl ifanc y cwm sydd wedi mynd yn eu blaenau i ddilyn gyrfaoedd cyffrous y myd y cyfryngau a chysylltiadau cyhoeddus, sef Steffan Huw o Glydach, Nel Richards o Graig Cefn Parc, Steffan Leonard o Dreforys a Sara Dafydd o Graig Cefn Parc. Bu'n ddiwrnod bythgofiadwy gydag awyrgylch gynnes, gefnogol wrth i bawb ddathlu ein doniau lleol a'n diwylliant unigryw ar benwythnos nawddsant Cymru.

Hoffai trefnwyr yr Eisteddfod ddiolch o galon i'r beirniaid a roddodd o'u hamser i gefnogi ein heisteddfod gyntaf, i'n noddwyr hael, i swyddogion Cymdeithas Eisteddfodau Cymru am eu cefnogaeth gydol y daith wrth sefydlu'r eisteddfod hon, ac i bawb sydd wedi ein cefnogi er mwyn sicrhau bod cyfle i drigolion Cwm Tawe fwynhau digwyddiad blynyddol mor gyfoethog ei ddoniau a'i draddodiadau fel hyn.

*Gwenno Ffrancon*

**AELODAETH FLYNYDDOL I EISTEDDFODAU LLEOL £20** *Manylion a ffurflen ymaelodi ar www.steddfota.cymru*

# CYSTADLAETHAU

**Manylion, Sgriptiau ac Amodau ar www.steddfota.cymru**

# 2025-2026










**NODER:**

* Bydd angen anfon darnau 'Tlws yr Ifanc' erbyn diwedd Ebrill.
* Bydd cystadleuaeth 'Mewn Cymeriad' yn dod i ben eleni.
* Manylion cystadleuaeth newydd i ddod.

# 2026-2027







# Cefnogwch eich eisteddfodau lleol

# MEWN CYMERIAD

## ADOLYGU'R DAITH

**Yn dilyn y cyfnod cytunedig o dair blynedd i gynnal cystadleuaeth 'Mewn Cymeriad' ar y cyd â'r Eisteddfod Genedlaethol, daeth cyfle i adolygu'r trefniadau ac ystyried camau nesaf y gystadleuaeth. Yn 2024, bu Daniel O'Callaghan yn un a fentrodd ar lwyfan y Brifwyl i bortreadu un o ffigyrau nodedig hanes Cymru yn y gystadleuaeth hon, ac rydym yn ddiolchgar iddo am rannu ei brofiad â ni yn ei eiriau ei hun. Dymunwn bob llwyddiant iddo yn ei yrfa, ac edrychwn ymlaen at glywed mwy o'i hanes yn y dyfodol. Yn y cyfamser byddwn yn eich diweddaru gyda newyddion perthnasol am ddatblygiadau yn dilyn y cyfnod ymgynghori ac adolygu.**

*Bydda i'n aml yn cefnogi amrywiaeth o gystadlaethau yn ein heisteddfodau lleol: llefaru, cerdd dant, gwerin, offerynnol a chanu clasurol. Ond, wrth gael rhyw bum munud fach i fi fy hun i bipo trwy restr testunau Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf, dyma weld cystadleuaeth oedd yn apelio'n syth - Mewn Cymeriad.*

*I rywun oedd yn mwynhau actio, ond oedd heb y profiad a'r hyfforddiant i fentro cystadlu neu ddewis darnau ar gyfer Gwobr Goffa Richard Burton, roedd cystadleuaeth Mewn Cymeriad yn berffaith. Doedd dim angen poeni am ddod o hyd i ddarn. Roedd gofynion y gystadleuaeth yn cynnig dewis o sgriptiau a chymeriadau hanesyddol i'w cyflwyno. Ar ôl penderfynu y byddwn i'n gwneud gwell Owain Glyndŵr na Cranogwen, dyma bwyso ar Judith Jones i helpu gyda'r wisg. Eto, ro'n i'n brin o hyfforddiant actio, ac yn ymwybodol bod y math yma o theatr yn wahanol. Felly, ro'n i'n ffodus iawn i gael cyngor gan Anni Dafydd ar hyd y daith - un sy'n gweithio fel actor i gwmni Mewn Cymeriad yn barod. A gyda lwc, ces gyfle i berfformio ar lwyfan y genedlaethol!*


*Aeth blwyddyn gron heibio â gweithdy ar y gorwel o hyd. Ar ôl Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, daeth cynnig gwell fyth i'm rhan. Roedd Mewn Cymeriad yn brysur yn trefnu perfformiadau ar gyfer Gŵyl Hanes Cymru i Blant, ac angen actor i berfformio sioe un dyn am T.Llew Jones. Felly, trwy garedigrwydd a ffydd Eleri Twynog Davies, Prif Weithredwr y cwmni, ces gyfle arbennig i berfformio'r sioe i gannoedd o blant yng Ngorllewin Cymru. Ac ar ben y cwbl, mae yna ysgolion yn galw am berfformiadau eraill o'r sioe yn barod!*

*Mae'n rhyfeddol i feddwl faint sydd wedi newid mewn ychydig dros flwyddyn. Fyddwn i byth wedi gallu dychmygu y byddwn i'n cael gweithio fel actor. A'r eisin ar y gacen? Joies i bob eiliad!*

*Dwi mor ddiolchgar i Gymdeithas Eisteddfodau Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol a Mewn Cymeriad am gynnig y gystadleuaeth wych yma.*

*Daniel O'Callaghan*




## YMATEB I'R GALW AM GYMORTH

Yn ganlyniad i sgyrsiau gyda swyddogion pwyllgorau eisteddfodau lleol ac aelodau o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru, mae'n fwriad gennym i ddatblygu dau adnodd fydd gobeithio, yn gymorth i chi wrth drefnu a hyrwyddo eich eisteddfodau.

Bydd un adnodd yn gymorth i chi ddarganfod ffynonellau ariannu a'r llall yn gymorth hyrwyddo a hysbysebu eich eisteddfod.

Bydd Sian (ein Swyddog Datblygu) yn trefnu cyfarfodydd ymgynghori dros yr wythnosau nesaf, i rannu arferion da sydd ar waith yn barod mewn gwahanol eisteddfodau, ac hefyd gwneud yn siŵr y bydd yr adnoddau yn diwallu anghenion.

Yn y cyfamser, cofiwch gysylltu os hoffech gymorth gyda rhywbeth penodol.

# O 'STEDDFOD I 'STEDDFOD

## EISTEDDFOD GADEIRIOL CHWILOG



Rebecca Rees, Talgarreg - Bardd y Gadair



Deio Rhys - y cystadleuydd llwyfan mwyaf addawol rhwng 15 a 25 oed

## EISTEDDFOD LLAWRPLWY' A PHENSTRYD



Cellan Lewis arweinydd Lliaws Cain, enillwyr y cystadlaethau corawl



Enillydd Tlws Merched y Wawr am Ryddiaith Bl.5 a 6

## EISTEDDFOD GADEIRIOL FELINFACH



Tesni Peers - Bardd y Gadair




Elan Evans - enillydd Tlws y Llenor Ifanc

## EISTEDDFOD GADEIRIOL CENARTH



Gwion Bowen - enillydd Tlws yr Ifanc am lefaru



Bardd y Gadair - Carwyn Tywyn

## EISTEDDFOD GADEIRIOL AELHAEARN



Celt John - Enillydd Cadair yr Ifanc



Caryl Morris Jones - Enillydd Tlws Llên yr Ifanc

# EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANDYFAELOG



Cystadlu brwd ar yr Unawd Piano Bl6 ac iau



Cystadleuwyr llwyddiannus Unawd Goffa Geraint Rees, Emyn Bl6 ac iau

# EISTEDDFOD CWM TAWE



Côr Dur a Môr - y côr buddugol



Dwy ddisgybl o Ysgol Pentrehafod yn profi llwyddiant ar yr Unawd i Ddysgwyr

*Lluniau gan **Celf Calon***

# EISTEDDFOD GADEIRIOL Y FELINHELI



Lucy Handy - enillydd Tlws y Dysgwyr



Enillydd Tlws yr Ifanc - Nanw Macintyre Huws

*Lluniau gan **Delwedd***

# EISTEDDFOD GARNDOLBENMAEN A'R CYLCH



Peter a Roz - enillwyr y Ddeuawd dros 16



Côr Eifionydd - buddugol yn y gystadleuaeth i Gôr neu Barti Merched/Meibion/Cymysg

# EISTEDDFOD FLYNYDDOL ABERGYNOLWYN

Owain Rhys yn derbyn cwpan coffa Mr a Mrs Gerald Owen yn y brif gystadleuaeth lefaru





Cystadleuwyr llwyddiannus Blwyddyn 1 a 2

**LLONGYFARCHIADAU!**

**DIOLCH YN FAWR I'R HOLL FFOTOGRAFFWYR**

Mwy o luniau a chanlyniadau ar www.steddfota.cymru

Edrychwn ymlaen at rannu blas o fyd yr eisteddfodau gyda chi yn y Steddfota nesaf. Pob hwyl gyda'r cystadlu!

# TALU TEYRNGED

## Cofio Mari Wyn

**(Is-Gadeirydd Pwyllgor Eisteddfod Castellnewydd Emlyn a'r Cylch**

Bu farw Mari Wyn ar Ragfyr 28ain, 2025 yn dilyn cyfnod hir o salwch. Roedd Mari yn aelod selog a brwdfrydig o bwyllgor yr Eisteddfod ers deugain mlynedd, wedi bod yn Is -Gadeirydd nifer o weithiau yn ystod y cyfnod hwn ac yn Gadeirydd yn 1989-1990.

Mari oedd yn gyfrifol am lywio seremoni tlws ieuenctid yr Eisteddfod a chadeirio'r bardd buddugol am nifer o flynyddoedd. Gwnaeth hyn yn ddi-ffael gydag urddas. Roedd Mari yn lenor dawnus, yn cyfarch y bardd buddugol ymhob Eisteddfod ac yn allweddol i'r pwyllgor wrth osod testunau adran lenyddol y Eisteddfod. Nid oedd unrhyw beth yn ormod o waith iddi er budd a llwyddiant yr Eisteddfod. Er nad oedd wedi gallu mynychu'r pwyllgorau yn ddiweddar oherwydd ei salwch, roedd ei diddordeb yn dal yn fyw ac yn effro.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf, 2024, fe dderbyniodd Mari dystysgrif gwirfoddolwyr Cymdeithas Eisteddfodau Cymru am ei gwaith, ei hymroddiad a'i theyrngarwch tuag at Eisteddfod Castellnewydd a'r Cylch. Fe'i derbyniodd gyda balchder a didwylledd gan ddatgan pa mor arbennig oedd y fraint o dderbyn yr anrhydedd. Roedd y dystysgrif i'w gweld mewn lle amlwg ar yr aelwyd yn Llys Myfyr.

Yn nhref Castellnewydd Emlyn, roedd Mari Wyn yn amlwg ymhob dim a oedd ynghlwm â'r iaith a diwylliant Cymreig, boed yn Eisteddfod, adran yr Urdd, y capel, Cymorth Cristnogol, Merched y Wawr neu gymdeithas lenyddol. Roedd yn Gymraes i'r carn, yn gryf ei daliadau a'i safiad dros ei hawliau fel Cymraes, ac yn gadarn ei ffydd.

Yn y gwasanaeth coffa ar Ionawr 10fed, talwyd teyrnged bwrpasol a chywir iddi fel mam gefnogol a chariadus, athrawes a gafodd ddylanwad ar nifer o blant a phobl ifanc, ffrind ffyddlon ac aelod o'r gymdeithas a wnaeth bopeth yn ei gallu i hybuCymreictod yn ei bro. Bydd y golled yn enfawr i'r ardal ac fe gydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

*Bethan Jones*



*Mari Wyn yn derbyn ei thystysgrif gan Bill Davies, Is-Gadeirydd Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, yn 2024*

## Cofio Gladys Pritchard

Trist clywed yn ddiweddar bod Mrs Gladys Pritchard, Caergybi wedi'n gadael ni, a hithau'n 88 oed.

Bu'n un o gonglfeini Eisteddfod Môn am flynyddoedd lawer, yn Drysorydd a Llywydd y Llys ac ynghlwm ag Eisteddfodau Môn Ynys Cybi yn 1997 a 2015. Bu hefyd yn Feistres y Gwisgoedd Gorsedd Beirdd Môn am sawl blwyddyn.

Roedd yn un o Lywyddion Anrhydeddus Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn yn 2017 ac fe gafodd ei hanrhydeddu gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru yn yr un flwyddyn am ei chyfraniad eithriadol a'i ffyddlondeb i'w heisteddfod leol.



*Gladys Pritchard yn derbyn ei thystysgrif gan Garry Owen, yn 2017*

"Roedd Gladys yn ffrind da i Gymdeithas Eisteddfodau Cymru, a bu'n wirfoddolwraig ar ein stondin droeon mewn eisteddfodau cenedlaethol ar hyd y blynyddoedd. Fe fydd colled mawr ar ei hôl", medd Megan Jones Roberts, Cadeirydd Cymdeithas Eisteddfodau Cymru.

Cydymdeimlwn gyda'r teulu yn eu hiraeth a'u galar am un a oedd mor annwyl ganddynt

Diolch am ei llafur.

*Megan Jones Roberts*


**Er cof annwyl iawn am Gladys Pritchard**

Ôl ei llaw ar Ŵyl a llan yw ei rhodd,
llafur oes, Môn gyfan;
â gwên rwydd y gwnâi ei rhan
â'i holl afiaith, gefn llwyfan.

**Annes Glynn**




# LLONGYFARCHIADAU




Braf iawn oedd cael cydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Tiwtoriaid Cymraeg preifat a Barddas (Y Gymdeithas Gerdd Dafod) ar gynnal cystadleuaeth Nadolig i Ddysgwyr, sef creu limrig. Y dasg a osodwyd gan y beirniaid, Sioned Erin Hughes a swyddogion Barddas, oedd creu limrig oedd yn cynnwys y linell "Nadolig a ddaeth unwaith eto."

Bu'n gystadleuaeth boblogaidd iawn, ac yn ei beirniadaeth nododd Sioned Erin Hughes: "*Rydw i a swyddogion Barddas wedi cael y fath bleser o ddarllen y cynigion ac o weld Dysgwyr yn rhoi cynnig ar fesur y limrig. Mae'r limrigau yn gymysgedd o hwyl, dychan a chariad, ac mae stori'r Geni yn pefrio o ddarllen sawl un ohonynt. Rydyn ni'n gwerthfawrogi bod cymaint ohonoch wedi mynd i ymdrech gyda'r cystadlu.*"

Joanne Hanson sy'n mynychu dosbarth dysgu Canolradd yng Ngholeg Gwent ddaeth yn gyntaf, â'r *"neges yma am wir ystyr a gwerth y Nadolig yn un hyfryd iawn. Mae'r geiriau 'heddwch' a 'bendith' yn crisialu'r hyn rydym ni oll yn gobeithio bydd pawb yn profi adeg Nadolig. Llongyfarchiadau calonnog iawn."*

Mark Pierce (Dosbarth: Uwch 1, Dysgu Cymraeg, Gogledd Ddwyrain) oedd yn ail a Brian Andrews o grŵp Siawns am Sgwrs, Prifysgol Bae Abertawe yn drydydd.

Hoffwn atgyfnerthu geiriau'r beirniaid i'r cystadleuwyr - *"gobeithio byddwch chi'n parhau i gystadlu mewn cystadlaethau i Ddysgwyr am y blynyddoedd sydd i ddod", ac atgoffa'r rheiny sy'n dysgu Cymraeg fod manylion cystadlaethau ar www.steddfota.cymru. Byddem hefyd yn annog pwyllgorau eisteddfodau i gofio cynnwys cyfleoedd i Ddysgwyr – mae pob eisteddfod wedi derbyn rhestr swyddogion lleol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ar e-bost erbyn hyn.*

*E-bostiwch sian@steddfota.cymru am gymorth pellach.*

# CYFARCHION!

Anfonwn ein dymuniadau gorau at Mr Ellis Wyn Roberts, fu'n dathlu pen-blwydd arbennig iawn yn ddiweddar.

Yn un o sylfaenwyr Cymdeithas Eisteddfodau Cymru dros chwarter canrif yn ôl, ac yn gyn-Gadeirydd, mae ei gefnogaeth a'i anogaeth at waith y Gymdeithas, ac at eisteddfodau lleol, yn parhau yn amhrisiadwy. Derbyniodd gydnabyddiaeth am ei wasanaeth ffyddlon a'i gyfraniad at Eisteddfod Môn, yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam llynedd.

Gobeithio'n wir i chi gael dathliad wrth eich bodd, Mr Roberts!





EISTEDDFOD YR URDD



**Mai 23-29**

**Welwn ni chi yno!**



**Sian Evans (Swyddog Datblygu)**
sian@steddfota.cymru
07795164911



**Lois Williams (Swyddog Cyfathrebu)**
lois@steddfota.cymru
01570 423700 / 07717842556

CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

# EISTEDDFODAU 2026

**CEFNOGWCH EICH 'STEDDFOD LEOL!**

**Gweler ddyddiadau eisteddfodau'r wythnosau i ddod, gyda digon o ddewis i 'steddfotwyr brwd! Cofiwch bod y rhestr ar www.steddfota.cymru yn cael ei diweddaru wrth i ni dderbyn unrhyw wybodaeth am ddyddiadau. Bydd y rhestrau testunau ar gael i'w lawrlwytho yn ogystal, unwaith y byddwn wedi'u derbyn gan eisteddfodau. Gofynnwn yn garedig, felly, i bwyllgorau gysylltu cyn gynted â byddwch wedi sefydlu dyddiad eich eisteddfod.**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 20 Mawrth | Eisteddfod Fach Capel Dewi | Catrin Curry<br>Helen Gibbon | machlud2@hotmail.com<br>helengibbon1@btinternet.com | 07974760198<br>07968802227 |
| 28 Mawrth | Eisteddfod Melin-y-Coed | Mostyn Jones | eisteddfodmyc@gmail.com | 07541691938 |
| 3 Ebrill | Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel | Llinos Pritchard | llinosannpritchard@gmail.com | 01678 530263 |
| 4 Ebrill | Eisteddfod y Groglith Dinas Mawddwy | Gwawr Davalan | SteddfodDinas@btinternet.com | 01650 531279 |
| 6 Ebrill | Eisteddfod Uwchmynydd | Awen Griffith | awengriffith@hotmail.co.uk | 01758 760667 |
| 6 Ebrill | Eisteddfod Flynyddol Pandy Tudur | Elin Prysor Williams | williams_elin@hotmail.com | 07760 296186 |
| 8 Ebrill | Eisteddfod Capel y Groes Llanwnnen | Ann Davies | anndavies52@gmail.com | 01559 362626 |
| 10 Ebrill | Eisteddfod Gadeiriol Bryngwenith | Y Parch Carys Ann | post@carys-ann.cymru | 01239 851005 |
| 11 Ebrill | Eisteddfod Gadeiriol Mynytho | Dilwyn Thomas | dilwyn465@btinternet.com | 07979733123 |
| 18 Ebrill | Eisteddfod y Groeslon | Emma Lloyd Edwards | emma.lloydedwards@btinternet.com | 07786983542 |
| 18 Ebrill | Eisteddfod Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain | Emma Burton | emma.burton@cambria.ac.uk | |
| 18 Ebrill | Eisteddfod Gadeiriol Llangadog | Eirian Davies | eiriandavies@me.com | 01550 777918 |
| 24 Ebrill | Eisteddfod Gadeiriol Rhydlewis | Sian Davies | Siani59@yahoo.co.uk | |
| 24-25 Ebrill | Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch | Ceris Gruffudd | Ceris.Gruffudd@gmail.com | 01970 828017 |
| 25 Ebrill | Eisteddfod Nedd | Eleri Sparnon Jones | elerisjones@hotmail.com | |
| 25 Ebrill | Eisteddfod Gadeiriol y Ffôr | Sioned Llwyd Williams | eisteddfodyffor@outlook.com | |
| 25 Ebrill | Eisteddfod Betws yn Rhos | Elan Mai Roberts | elanmai.roberts@senedd.wales | 07818 062 045 |
| 1-3 Mai | Eisteddfodau Teulu James Pantyfedwen Pontrhydfendigaid | Carys Ann Davies | carysann84@yahoo.co.uk | 01974 831244 |
| 4 Mai | Eisteddfod Gadeiriol Maenclochog | Carol Nicholas<br>Catrin Williams | carolnicholas@talktalk.net<br>evansawilliams@hotmail.co.uk | 07971073864<br>07837512984 |
| 7 Mai | Eisteddfod Calan Mai Aberystwyth | Megan Jones Roberts | meganjones849@gmail.com | 01970 612768 |
| 8 Mai | Eisteddfod Gadeiriol Capel y Fadfa Talgarreg | Emyr Griffiths | siopdeithiol@btinternet.com | 01545 590383 |
| 8 Mai | Eisteddfod Gadeiriol Mynyddygarreg | Christine Evans | christineevans2@icloud.com | 07811052017 |
| 9 Mai | Eisteddfod Gadeiriol Llanuwchllyn | Alwyn Roberts | llungwyn@btinternet.com | 07818 454190 |
| 9 Mai | Eisteddfod Y Fenni (oed cynradd) | Rosemary Williams | davidwilliams177@btinternet.com | 07929609689 |
| 9 Mai | Eisteddfod yr Hendy | Delyth Mai Nicholas | delmnic@aol.com | 01792 884036 |
| 9 Mai | Eisteddfod Heol Senni | Siân Norgate | snorgate25@gmail.com | 01874 636621 |
| 15 Mai | Eisteddfod Dihewyd | Meinir Lewis | euros@mailsaq.net | 01570 470050 |
| 16 Mai | Eisteddfod Gadeiriol Llandudoch | Terwyn Tomos | ellandudoch@gmail.com | 01239 612928 |
| 23-29 Mai | Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn | www.urdd.cymru | | |
| 13 Mehefin | Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth | Rhian Thomas | rhian23957@hotmail.co.uk | 07748 020968 |
| 20 Mehefin | Eisteddfod Gadeiriol Castellnewydd Emlyn a'r Cylch | Bethan Jones | wbjonesmeb@btinternet.com | 01239 711734 |
| 20 Mehefin | Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy Llanrwst | | Jones_emj@hotmail.com | 07949048306 |
| 27 Mehefin | Eisteddfod y Fenni (Uwchradd ac Oedolion) | Rosemary Williams | davidwilliams177@btinternet.com | 07929609689 |
| 3-4 Gorff. | Eisteddfod Powys Bro Ddyfi | Sioned Elin Hughes | eisteddfodpowys@outlook.com | 07971520122 |
| 4 Gorff. | Eisteddfod Bro Llandegfan | Helen Davies | helencaeffynnon@yahoo.co.uk | 01248 714705 |